OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 20

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2021

## RHAN 3

Diwygiadau i Ran 3 a Rhan 3B o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Diwygiad i Ran 3 (gofyniad i ynysu etc.) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol**

**4.** Hepgorer rheoliad 12C (rheolau arbennig sy’n berthnasol i bobl sy’n teithio o Dde Affrica) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

**Darpariaeth arbed mewn cysylltiad â rheoliad 4**

**5.** Pan fo rheoliad 12C o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gymwys i berson, yn union cyn 4.00 a.m. ar 9 Ionawr 2021, mae’n parhau i fod yn gymwys i’r person hwnnw er gwaethaf ei ddirymu gan reoliad 4.

**Hepgor Rhan 3B (teithio o Dde Affrica) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol**

**6.** Hepgorer Rhan 3B (teithio o Dde Affrica) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.